Sut rydyn ni'n helpu

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda landlordiaid a'r awdurdod lleol i helpu pobl i ddod o hyd i gartref parhaol yn gyflym.

Caiff cymorth parhaol ei roi ar waith wedyn i'w helpu i ymgartrefu a chynnal a chadw eu cartref newydd.

Mae'r prosiect yn rhoi cymorth dwys i fynd i'r afael â materion ehangach fel:

- Cyllidebu
- Budd-daliadau
- Cyflogaeth
- Iechyd meddwl
- Camddefnyddio sylweddau
- A beth bynnag arall sydd ei angen arnoch chi

Cysylltu

I gofrestru eich diddordeb chi neu ddiddordeb rhywun arall, cysylltwch â ni.

Cyfeiriad
Unit 1, 67 Plymouth Street, Abertawe. SA1 3QQ

E-bost
Swanseahousingfirst@thewallich.net

Ffôn
01792 957910

Rydyn ni'n derbyn atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill.

Mae Tai yn Gyntaf Abertawe yn bartneriaeth rhwng y Wallich, Kaleidoscope a Chyngor Abertawe.

How we help

We work closely with landlords and the local authority to help people find a permanent home quickly.

Ongoing support is then put in place to help them settle in and maintain their new home.

The project provides intensive support to address issues beyond housing such as:

- Budgeting
- Benefits
- Employment
- Mental health
- Substance misuse
- And whatever else you need

Contact

To register interest for yourself or someone you know, get in touch.

Address
Unit 1, 67 Plymouth Street, Swansea. SA1 3QQ

Email
Swanseahousingfirst@thewallich.net

Phone
01792 957910

We accept referrals from other agencies.

Swansea Housing First is a partnership between The Wallich, Kaleidoscope and Swansea Council.

thewallich
atal digartrefedd • preventing homelessness

Tai yn Gyntaf Abertawe

Swansea Housing First

Mewn partneriaeth â | In partnership with

Cyngor Abertawe Swansea Council

Kaleidoscope Project EST: 1968

thewallich
atal digartrefedd • preventing homelessness

Rhif cofrestredig yr elusen: 1004103
Registered charity number: 1004103

www.thewallich.com

Pwy rydyn ni'n eu helpu

Tai a chymorth i unrhyw un dros 18 oed, sy'n ddigartref neu'n cysgu ar y stryd.

Who we help

Housing and support for anyone over the age of 18, who is experiencing homelessness and rough sleeping.

Beth yw Tai yn Gyntaf?

Mae Tai yn Gyntaf yn canolbwyntio ar gael pobl i'w tai eu hunain ar unwaith - yn hytrach na chwilio am atebion dros dro (fel lle mewn hostel).

Dylai'r cymorth fod yn seiliedig ar gryfderau'r unigolyn yn hytrach nag ar ei broblemau, gyda gwasanaethau'n mynd ati'n rhagweithiol i annog ymgysylltiad mewn meysydd eraill.

What is Housing First?

Housing First focuses on getting people straight into their own accommodation – rather than finding temporary solutions (such as a hostel place).

Support should be based around a person's strengths rather than their problems, with services working proactively to encourage engagement in other areas.

Mae cyfres o egwyddorion craidd ar gyfer Tai yn Gyntaf:

- Mae cael cartref yn hawl ddynol
- Dylai fod gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ddewis a rheolaeth
- Nid yw cael cartref yn amodol ar gymorth neu driniaeth
- Cymorth sy'n canolbwyntio ar adfer
- Cymorth sy'n canolbwyntio ar leihau niwed
- Ymgysylltu heb orfodi
- Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae cymorth hyblyg ar gael, cyhyd ag y bo angen

There are a set of core principles for Housing First:

- Housing is a human right
- Service users should have choice and control
- Housing is not conditional on support or treatment
- Support is recovery oriented
- Support focuses on harm reduction
- Active engagement without coercion
- Planning is person-centred
- Flexible support is available, as long as required